

F, G

from time to time: o dro i dro, o bryd i'w gilydd, o bryd i bryd, ambell dro, ambell waith, ar dro, nawr/rŵan ac yn y man, nawr/rŵan a phryd arall

from today onwards: o heddiw ymlaen, o'r dydd heddiw ymlaen, o'r dydd heddiw allan

from top to bottom: o'r bôn i'r brig *The house was dirty from top to bottom: Roedd y tŷ'n fudr o'r bôn i'r brig.*

from top to toe: as for **from head to foot**

from under ...: oddi dan ..., oddi tan ...

I see **from your face ...:** Rwy'n gweld ar eich wyneb ...

to frown at ...: gwgu ar ...

frozen stiff: wedi fferru, wedi rhewi'n gorn
to fulfil a promise/vow: cyflawni addewid/adduned

for a **full hour:** am awr gron *She had been standing there for a full hour: Roedd hi wedi bod yn sefyll fan yna am awr gron.*

full length: ar ei hyd (i gyd) *She tripped and fell full length: Baglodd hi a syrthio ar ei hyd.*

full of cold: yn swp o annwyd, yn tsiwps o annwyd (S)

She is **full of her own importance:** Mae hi'n llawn ohoni ei hun, Mae hi'n fi fawr, Mae ganddi dipyn o stumog (S)

to be full of mischief: berwi o ddireidi, bod yn ddireidus/ddrygionus iawn

full of zest: yn ei afiaith (*ef)

full to capacity (with people): dan (ei) sang, yn llawn dop *The hall was full to capacity: Roedd y neuadd dan sang.*

full to capacity with ...: dan ei sang o ...

full to the brim: llawn hyd yr ymylon

fully grown: yn ei llawn dwf (*hi)

to fume in/with rage: malu ewyn, ffromi, cynddeiriogi

to furnish expensively: hel tipyn go lew i'r cwch (N) *I could see immediately that they*

had furnished the place expensively: Medrwn i weld yn syth eu bod wedi hel tipyn go lew i'r cwch.

to fuss about/over s.o.: ffwdanu/ffysan (S) am/ynghylch rhn

~

the gable end of the house: talcen y tŷ

to gain admittance to ...: cael mynd i mewn i ..., cael mynediad i ...

to gain credence: cael coel

to gain ground (i.e. to make progress): ennill tir

to gain strength: codi cefn *She is now gaining strength after her illness: Erbyn hyn mae hi'n codi cefn ar ôl ei hafiechyd.*

to gain the upper hand over ...: cael y llaw uchaf/drechaf ar ...

She is **game for anything:** Mae hi'n barod am unrhyw beth

a **game of chance:** chwarae damwain/hap/siawns, hapchwarae

to gape at ...: rhythu/syllu ar ...

The **gas is on:** Mae'r nwy'n llifo

to gather dust: hel llwch (N), casglu llwch (S)

to gather that ...: casglu bod ... *You will have gathered that I haven't much interest in astrology: Byddwch wedi casglu nad oes gen i fawr o ddiddordeb mewn astroleg.*

to gaze at/(up)on ...: syllu ar ...

generally true: cyffredinol wir *I don't think that is generally true: Dw i ddim yn meddwl bod hynny'n gyffredinol wir.*

generous in her praise: yn hael ei chlod

gentle with ...: tirion/tyner wrth .../tuag at ...

the genuine article: y gwir beth